Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Arbenigol (Iechyd a Diogelwch)

**Lleoliad:** Gweithio Ystwyth

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol

**Rhif y Swydd:** BG00754

**Cyflog:** Gradd 9 (£42,403 - £46,464 y flwyddyn)

**Oriau:** 37 awr yr wythnos

**Contract:** Parhaol

**Crynodeb o'r Swydd**

Ymgymryd ag ymyriadau ac ymchwiliadau rhagweithiol ac adweithiol ar gyfer clefydau trosglwyddadwy diogelwch iechyd a diogelwch bwyd, ymateb i geisiadau gwasanaeth a hysbysiadau eraill sy'n berthnasol i waith y tîm a chymryd camau gorfodi priodol lle bo angen i ddiogelu a gwella iechyd y cyhoedd. Ymgymryd â'r dyletswyddau a nodir yn unol ag unrhyw ofynion statudol perthnasol, codau ymarfer neu ganllawiau / polisïau gweithredol eraill a allai fod yn berthnasol.

**Hysbyseb lawn**

Mae cyfle cyffrous wedi codi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwys yn gweithio o fewn ein Tîm Masnachol, sydd wedi'i leoli yng Ngwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd. Rydym yn dîm bach o weithwyr proffesiynol llawn cymhelliant ac angerddol ac yn chwilio am unigolyn o'r un anian i ymuno â ni. Y swyddogaethau iechyd a diogelwch, clefydau trosglwyddadwy a diogelwch bwyd yw'r meysydd gwasanaeth allweddol y mae'r Tîm yn eu cyflawni ar hyn o bryd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ymgymryd ag ystod o ymyriadau wedi'u rhaglennu ac adweithiol ar draws holl feysydd gwaith y Tîm ond gyda ffocws arweiniol ar iechyd a diogelwch.

Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, bydd gennych sgiliau cyfathrebu a thrafod rhagorol, yn ogystal â gwybodaeth gadarn o arfer gorau a deddfwriaeth. Byddai gofyn i chi gyflawni dyletswyddau llawn Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisïau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Rhaid i chi fod yn Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a meddu ar Dystysgrif Cofrestru gyda Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd neu gyfwerth. Rhaid i chi hefyd allu dangos bod gennych brofiad o fodloni'r gofynion cymhwyster a chymhwysedd perthnasol fel y nodir ym Manyleb y Person.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig ac yn ymroddedig gydag agwedd ddeinamig at ei waith ac at ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan chwarae rhan bwysig o fewn y Tîm Iechyd yr Amgylchedd blaengar.

Mae'r swydd yn cynnwys Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol Cymeradwy felly mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio mwy diogel, diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Disgwyliwn i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae’r pecyn buddion yn cynnwys hawl gwyliau hael, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu sy’n berthnasol i’r rôl a’r opsiwn i fod yn aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

*Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gyflogwr Cyfle Cyfartal.*

Rhestrir manylion a ffurflenni cais ar gyfer pob swydd wag ar wefan y Cyngor.

Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned yn gadarnhaol.

Os hoffech drafod y rôl yn fwy manwl yn anffurfiol, cysylltwch â **Lisa Griffin, Rheolwr Tîm** drwy ffonio **07974 002932**, neu drwy e-bost **lisa.griffin@blaenau-gwent.gov.uk**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Dyddiad Cau:** **1af Awst 2024 – 12:00am, hanner nos**

**Dyddiad Cyfweliad:** **Dydd Llun 12fed Awst 2024 (Rhithwir)**